# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-03-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 24 Ionawr 2006

### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl y Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Richard Miltiadis | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Janice Gregory, Christine Gwyther

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-02-2006

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau. Dywedodd mai dyma'r tro cyntaf iddo fe a Brynle Williams AC fod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Deddfau. Diolchodd i'r Cadeirydd blaenorol, Glyn Davies AC, ac i Laura Davies AC, am eu cyfraniadau at y Pwyllgor. Nododd y Cadeiydd fod Glyn Davies AC wedi bod gyda'r Pwyllgor ers blynyddoedd lawer a'i fod wedi cyfrannu at waith y Pwyllgor fel aelod yn gyntaf ac wedyn fel Cadeirydd. Awgrymodd y byddai'n anfon llythyr byr ar ran y Pwyllgor i ddiolch i Glyn Davies AC a Laura Jones AC. Cytunodd yr Aelodau â'r awgrym.

3.2 Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn credu bod rôl y Pwyllgor Deddfau – sef sicrhau nad oedd y ddeddfwriaeth a oedd yn dod gerbron y Cynulliad llawn yn ddiffygiol a'i bod wedi cydymffurfio ag unrhyw ofynion perthnasol – yn bwysig iawn. Aeth ymlaen i ddweud y byddai cylch gwaith y Pwyllgor yn newid yn llwyr ar ôl 2007. Gan fod Mesur Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi bellach, dywedodd y Cadeirydd fod angen i'r Pwyllgor edrych ar y posibiliadau ar gyfer ei gylch gorchwyl neu ei gylch gwaith ar ôl 2007. Awgrymodd y dylai'r Aelodau ofyn i'r Cynghorwyr Cyfreithiol baratoi papur o fewn cyfnod o ddwy neu dair wythnos i fyfyrio ar gylch gorchwyl neu gylch gwaith y pwyllgorau yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon a oedd â chyfrifoldebau tebyg i'r cyfrifoldebau a allai fod gan y Pwyllgor Deddfau ar ôl 2007. Cytunodd yr Aelodau â'r awgrym. Camau i'w cymryd: Y Cynghorwyr Cyfreithiol/Y Clerc

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

### 4.1 LC1201 – Rheoliadau Addysg (Penderfynu Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006

### LC1202 – Rheoliadau Addysg (Gwrthwynebiadau i Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006

### LC1203 – Rheoliadau Addysg (Amrywio Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006

**LC1204 – Rheoliadau Ysgolion Newydd (Derbyniadau) (Cymru) 2006**

**LC1205 – Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 8) (Cymru) 2006**

**LC1206 – Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2006**

Ms Jackson gyflwynodd yr adroddiadau i'r Pwyllgor. Byddai'r Offerynnau Statudol yn cael eu gwneud o dan y Weithdrefn Safonol.

4.2 Ar ôl ystyried adroddiadau'r Cynghorwyr Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad nad oedd yna faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.7 ac y dylai'r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a oedd wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

**4.3 LC1207 - Gorchymyn Cymeradwyo Codau Ymarfer ar gyfer Rheoli (Eiddo Preswyl) (Cymru) 2006**

Mr Griffiths gyflwynodd yr adroddiad i'r Pwyllgor. Byddai'r Offeryn Statudol yn cael ei wneud o dan y Weithdrefn Safonol.

4.4 Er bod y Gorchymyn ei hun yn ddwyieithog, esboniodd Mr Griffiths fod y Cod y cyfeirir ato yn y Gorchymyn yn uniaith Saesneg ar hyn o bryd. Er hynny, doedd dim angen i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad am y pwynt hwnnw, gan fod y Pwyllgor Busnes wedi ysgrifennu at yr RICS am hyn yn barod ac y byddai yntau'n gallu adrodd yn ôl ar y canlyniad.

4.5 Ar ôl ystyried adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad nad oedd yna faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.7 ac y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a oedd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.6 Mae adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau wedi'i atodi ar ffurf LC1207 (Adroddiad).

**4.7 LC1208 - Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) 2006**

Mr Griffiths gyflwynodd yr adroddiad i'r Pwyllgor. Byddai'r Offeryn Statudol yn cael ei wneud o dan y Weithdrefn Garlam.

4.8 Ar ôl ystyried adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad nad oedd yna faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.7 ac y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a oedd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

**Camau i'w cymryd**

3.2 Gofynnwyd i’r Cynghorwyr Cyfreithiol baratoi papur o fewn cyfnod o ddwy neu dair wythnos i fyfyrio ar gylch gorchwyl neu gylch gwaith y pwyllgorau yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon a oedd â chyfrifoldebau tebyg i’r cyfrifoldebau a allai fod gan y Pwyllgor Deddfau ar ôl 2007. Camau i’w cymryd: Y cynghorwyr Cyfreithiol/Y Clerc

## Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 31 Ionawr 2006.